Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

## Diweddariad 2023









Mae’r ddogfen hon yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau. Efallai bod gennych brofiad o bynciau fel iechyd meddwl, hunanladdiad neu fwlio. Os yw’r rhain yn peri gofid i chi, mae rhywun i siarad â nhw bob amser. I gael mwy o gymorth, ewch **Home – Meic (meiccymru.org)** fel man cychwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i egwyddorion **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** ac i roi sylw iddo ym mhob penderfyniad a wnawn. Credwn y dylai pob un o'n plant a'n pobl ifanc **arfer yr hawliau hyn**.

# Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol.



Nod popeth a wnawn yn Llywodraeth Cymru yw gwneud bywyd yn well i bobl Cymru. Mae hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau i wella bywydau plant a phobl ifanc.

**Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu Rhaglen Lywodraethu ar ôl iddynt gael eu hethol yn 2021.** Mae'n cynnwys rhai o'r pethau pwysig y byddant yn eu gwneud dros blant a phobl ifanc cyn yr etholiad nesaf yn 2026.

# Yr hyn rydym wedi'i wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud.

Yn 2022, cyhoeddwyd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Cynllun yn nodi'r addewidion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc.

Mae'r tudalennau nesaf yn dweud wrthych am rywfaint o'r gwaith rydym eisoes wedi ei wneud a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

Dyma ein diweddariad cyntaf i'r Cynllun.





# Y dechrau gorau mewn bywyd.

**Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw, tyfu i fyny a chyrraedd ei botensial llawn.**

**Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Talu am ofal plant i fwy o blant.
- Annog teuluoedd i siarad Cymraeg â'u plant.
- Siarad â phobl am Fwndeli Babi i ddarganfod beth fyddai'n ddefnyddiol i rieni newydd.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Parhau i weithio ar wneud y Rhaglen Bwndeli Babi y gorau y gall fod.

Cyhoeddi Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant 0-5 oed yng Nghymru.

Parhau i hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant a'r gwaith i'w ehangu i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

Helpu mwy o blant gyda'u lleferydd drwy **Siarad Gyda Fi**.

Hyrwyddo pwysigrwydd cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i bob plentyn drwy'r grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan.

Parhau i ariannu cymorth blynyddoedd cynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg drwy'r Mudiad Meithrin.

Ehangu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir yn raddol trwy Dechrau'n Deg.

Lansio canllawiau a safonau newydd ar gyfer y rhai sy'n cyflwyno'r rhaglen archwiliadau corfforol ar gyfer babanod a babanod newydd-anedig.

# Cael eu trin yn deg mewn addysg.

**Mae gan blant yr hawl i fod y gorau y gallant fod.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Dechrau'r cwricwlwm newydd i Gymru.
- Parhau i chwalu'r rhwystrau i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu amhariadau.
- Wedi gweithio i wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ym mlynyddoedd 3, 4, 5 a 6 gael cynnig prydau ysgol am ddim erbyn mis Ebrill 2024.

Trefnu sesiynau i ymgysylltu â phobl ifanc ar ôl i ni gyhoeddi Fframwaith Siarter Iaith genedlaethol newydd.

Cyhoeddi canfyddiadau cynnar o'r gwerthusiad o'r system ADY. Bydd hyn yn asesu sut mae'r trefniadau newydd yn mynd.

Ymgynghori ar ganllawiau pellach ar gyfer cynnig ysgolion i ddysgwyr 14-16 oed o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Ymgynghori ar y canllawiau gwella ysgolion sydd wedi'u diweddaru.

Parhau i adolygu gwaith gydag awdurdodau lleol i wella adeiladau ac ystadau ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Parhau i fonitro a chefnogi gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Byddwn yn sicrhau bod awdurdodau'n gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau i hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Parhau i hyrwyddo Rhaglen Plant Iach Cymru i bob plentyn oed ysgol yng Nghymru.

# Meithrin sgiliau a chael swydd.

**Mae gan blant yr hawl i fod y gorau y gallant fod.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu (hunan) gyflogaeth i bawb dan 25 oed. Y Warant i Bobl Ifanc yw'r enw ar hwn.
- Helpu pobl ifanc 16-18 oed i feithrin sgiliau ar gyfer gwaith drwy Dwf Swyddi Cymru+.
- Helpu llawer o bobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant drwy'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Parhau i gyfarfod â'r Bwrdd Cynghori ar y Warant i Bobl Ifanc. Bydd y Bwrdd yn helpu i lunio cyfeiriad y Warant i Bobl Ifanc yn y dyfodol .

Gofyn i Estyn adolygu rôl gweithwyr ieuenctid arweiniol o ran cefnogi Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall sut mae eu gwasanaethau'n cefnogi pobl ifanc a sut y gellid eu halinio.

Paratoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd ar gyfer ei rôl o ran darparu a datblygu'r Warant i Bobl Ifanc.

Datblygu adnodd llwybrau newydd i gefnogi pobl ifanc a'u rhieni a'u gwarcheidwaid gyda'u dewisiadau.

Hyrwyddo'r Warant i Bobl Ifanc drwy ymgysylltu ag ysgolion, colegau, prifysgolion, busnesau a thrwy Gyrfa Cymru, teledu, radio a'r cyfryngau cymdeithasol.

# Iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol.

**Mae gan blant yr hawl i fwyd iach a gofal iechyd o ansawdd da.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

Helpu plant a theuluoedd i fyw bywydau iachach a mwy egnïol – Pwysau Iach: Cymru Iach.

Parhau gyda'n gwaith ar y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol.

Datblygu fframwaith NYTH/NEST ar draws Cymru i gydlynu cymorth iechyd meddwl.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Ystyried gwneud ymchwil i'r rhwystrau i gyfranogiad teuluoedd mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Gweithio gyda phartneriaid i gryfhau penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar iechyd a lles ar draws Cymru.

Ystyried sut allwn ddarparu pecyn o gymorth i annog gweithgarwch corfforol drwy gydol y diwrnod ysgol.

Adolygu'r canllawiau ar 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc ac adnoddau'n ymwneud â bwyta anhrefnus'.

Cefnogi plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd a'u lles drwy Plant Iach Cymru.

# Cymdeithas deg, cenedl garedig.

**Mae gan bob plentyn yr hawl i amgylchedd glân.**

**Mae gan bob plentyn yr hawl i gael cymorth gan y llywodraeth os nad oes gan eu teuluoedd ddigon o arian i fyw.**

**Dylai pob plentyn allu arfer ei hawliau a chael ei drin yn gyfartal.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Dechrau creu Coedwig Genedlaethol i Gymru
- Gostwng y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl i 20mya.
- Gwella bywydau'r rheini â nodweddion gwarchodedig drwy gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n ystyried hil, rhywedd a LHDTC+.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Cyflwyno Cam 1 o'n gwaharddiadau a'n cyfyngiadau ar gyflenwi plastigau untro.

Ymateb i adroddiad Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cwblhau a chyhoeddi ein Strategaeth Tlodi Plant.

Cyflwyno a gwerthuso'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru.

Gweithio gyda Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain i weithredu argymhellion a wnaed yn adroddiad eu harchwiliad o Lywodraeth Cymru.

Adolygu Canllawiau Rheoli Achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar y ddalfa ac ailsefydlu.

Parhau i gefnogi plant a phobl ifanc y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt, gan gynnwys drwy'r ffrwd waith "Anghenion plant a phobl ifanc" yn ein Glasbrint VAWDASV.

Parhau i gyflawni ein cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae hyn yn cynnwys:

- Y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru.
- Cynllun Gweithredu LHDTC+.
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Y Strategaeth Tlodi Plant.
- Camau gweithredu o'n Tasglu Anabledd.

Diweddaru ein canllawiau gwrth-fwlio 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' er mwyn helpu i atal bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

# Cartref da a diogel.

**Mae gan blant yr hawl i gartref diogel ac iach.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

Parhau i brofi dulliau newydd o ymdrin â thai i bobl ifanc agored i niwed drwy'r Gronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref.

Cyhoeddi ein **Fframwaith Ymgysylliad a Datblygu Ieuenctid**.

Darparu Grantiau Cymorth Ieuenctid i awdurdodau lleol.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud:

Buddsoddi yn y Grant Cymorth Ieuenctid i barhau i helpu i adnabod ac atal digartrefedd ymysg pobl ifanc.

Cyhoeddi canllawiau newydd i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid. Bydd yn cynnwys canllawiau ar bobl ifanc a theuluoedd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cyhoeddi adroddiad gydag argymhellion gan y **Panel Adolygu Arbenigol annibynnol ar ddiwygiadau i'r gyfraith** ar ddigartrefedd.

Cyhoeddi gwerthusiad o brosiectau ein Cronfa Arloesi ar gyfer Pobl Ifanc Ddigartref. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys astudiaethau achos y gellir eu defnyddio i rannu arferion da.

Trwy ein **dull ailgartrefu cyflym**, byddwn yn gweithio i leihau nifer y teuluoedd â phlant sydd mewn llety dros dro.

Cyhoeddi cynlluniau ar gyfer diwygio'r gyfraith ar ddigartrefedd. Byddwn yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r ymgynghoriad.

Bydd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn cael eu cwblhau gan awdurdodau lleol erbyn mis Mawrth 2024. Bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r rhain er mwyn sicrhau bod anghenion teuluoedd â phlant yn cael eu diwallu.

# Teuluoedd.

**Mae gan blant yr hawl i fyw gyda'u teuluoedd os mai dyma sydd orau iddynt.**



## Yr hyn rydym wedi ei wneud:

- Dechrau cyflwyno cymorth eiriolaeth ar draws Cymru i rieni y mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal. Bydd gwasanaethau ar gael ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru.
- Cefnogi cynlluniau llety rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth yng Nghymru, fel y gallant aros yn lleol.
- Parhau i weithio ac ymgysylltu â darparwyr preifat gofal preswyl a gofal maeth i blant ynghylch y newid i system gofal ddi-elw yng Nghymru.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud:

Annog pob sefydliad cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i ddod yn Rhieni Corfforaethol.

Parhau i weithio gyda'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol i ystyried camau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu canllawiau i awdurdodau lleol.

Cefnogi'r gwaith o gyflwyno cymorth eiriolaeth i rieni y mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal.

Parhau i ddatblygu cyfreithiau newydd i gael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Gweithio ar y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Byddwn yn siarad â mwy o bobl am y safonau cenedlaethol drafft wrth i ni ddatblygu fersiwn derfynol o'r Fframwaith Ymarfer.

Buddsoddi ym Maethu Cymru er mwyn sicrhau y gallwn recriwtio teuluoedd maeth amrywiol i ddiwallu anghenion newidiol ac amrywiol plant sydd angen gofal a chymorth.

Parhau i weithio tuag at gynnig cyson o gymorth i deuluoedd maeth ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod ein teuluoedd maeth yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, pryd bynnag y maent ei angen, ble bynnag y bônt yng Nghymru.

# Sut y byddwch yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd.

## Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod cerrig milltir y maent am i Gymru eu cyflawni erbyn 2050.

**Rydym wedi ystyried sut y gall yr hyn a wnawn ein helpu i gyrraedd y cerrig milltir.**

**Byddwn yn gwneud mwy o waith ar hyn ac yn meddwl am y gwahanol fathau o wybodaeth a fydd yn ddefnyddiol.**

- Cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050.
- Cynyddu canran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach o ran eu ffordd o fyw i fwy na 97% erbyn 2050.
- Cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050.
- Bydd gan 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru gymwysterau ar lefel 3 neu uwch erbyn 2050.
- Bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050.
- Gwella Incwm Gwario Gros Aelwydydd, y pen, yng Nghymru erbyn 2035 ac ymrwymo i osod targed twf ymestynnol ar gyfer 2050.
- Dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y bydd Cymru'n ei defnyddio erbyn 2050.
- Dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050.
- Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â nodweddion allweddol a gwarchodedig penodol (sy'n golygu mai hwy sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a'r rhai heb y nodweddion hynny, erbyn 2035. Ymrwymo i osod targed ymestynnol ar gyfer 2050.
- Dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur.
- Bydd o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050.
- Cynyddu canran y bobl sy'n gwirfoddoli 10% erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy'n gwirfoddoli.
- Gwella lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch yn lles meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050.
- Bydd perfformiad ynni pob cartref yng Nghymru yn ddigonol ac yn gost-effeithiol erbyn 2050.
- Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn cyrraedd sero net erbyn 2050.
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050.

# Sut y byddwn yn eich cynnwys.

**Byddwn yn gwrando** ar blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau Un o'r ffyrdd y byddwn yn gwneud hyn yw drwy Gymru Ifanc.

**Byddwn yn siarad** â phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at wireddu ein huchelgais a chyflawni ein blaenoriaethau. Bydd hyn yn cynnwys bod yn well am roi gwybod i chi am gyfleoedd i ddweud eich dweud.


**Bob blwyddyn, byddwn yn** siarad â phlant a phobl ifanc cyn diweddaru'r cynllun hwn. Mae aelodau Cymru Ifanc wedi ein helpu gyda'r diweddariad hwn.

**Byddwn yn ymateb** i adborth gan blant a phobl ifanc. Gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio **customerhelp@llyw.cymru**.



# Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

# Children and Young People's Plan.









OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48479, ISBN digidol 978-1-83577-137-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg